# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 03-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 10 Chwefror 2009**
**Amser: 09:30-10:13**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Siân Phipps, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### Eitem 2: Deisebau newydd

PET(3) 03-09 Papur 1

### (i) P-03-153 Celf corff

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Gomisiynu nodyn cyfreithiol oddi wrth Wasanaeth Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### (ii) P-03-185 Adfywio Llanilltud Fawr

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Adfywio i ofyn am fwy o wybodaeth am y cais am grant a'r rheswm pam y cafodd ei wrthod.

### Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

PET(3) 03-09 Papur 2

### (i) P-03-089 Ysgolion Cymunedol Powys

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd y pwyllgor i :

Gau'r ddeiseb, gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach

Anfon yr holl waith papur a gasglwyd ymlaen at y prif ddeisebydd

### (ii) P-03-109 Cynlluniau yn erbyn bwlio

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb, gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach

Anfon copi o lythyr y Comisiynydd Plant at Mencap Cymru

Gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglŷn â'r prosiect storïau digidol.

### (iii) P-03-122 Chwarel Hafod

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Wahodd y prif ddeisebydd i ymateb i lythyrau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru

### (iv) P-03-137 Hypothyroidedd

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi ymateb i'r pwyntiau a nodwyd yn llythyr diweddaraf y prif ddeisebydd.

### (v) P-03-141/149 Maes Awyr Llanbedr

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Gau'r ddwy ddeiseb, gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â hwy ymhellach.

### (vi) P-03-144 Cwn Tywys y Deillion

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Ofyn i'r Pwyllgor Menter a Dysgu am ei farn ar y ddeiseb hon.

Ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai am ei barn ar alwad 'Cŵn Tywys y Deillion' am ohirio datblygiadau lle rhennir gwagleoedd.

### (vii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn ag, a yw byrddau iechyd lleol wedi cwrdd â'r safonau canser cenedlaethol, unwaith y bo'r dyddiad terfyn ar gyfer cwrdd â'r safonau wedi pasio?

Anfon copi o ymateb y Bwrdd Iechyd Lleol i'r prif ddeisebydd

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am y ddeiseb hon

### (viii) P-03-170 MENCAP Cymru

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Wahodd Mencap Cymru i ymateb i'r ymatebion a gafwyd.

### (ix) P-03-178 Yn erbyn carchar newydd yng Nghwmbran

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Gau'r ddeiseb hon, gan fod y ddeiseb wedi cyflawni'i hamcanion.

### (x) P-03-179 Myfyrwyr Ôl-19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Aros am ganlyniadau gwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

### (xi) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Sicrhau bod y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o bryderon Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf.

Anfon copi o lythyr Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf at y deisebwyr

### (xii) P-03-194 Gwasanaeth bws o Gwm Rhymni i Gaerdydd

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i :

Gyfeirio'r ddeiseb hon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'w hystyried yn unol â'i weithdrefnau ei hun.

### (xiii) P-03-196 Sutent

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb hon, gan fod y ddeiseb wedi cyflawni'i hamcanion.

### Eitem 4: Protocolau drafft gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ystyriodd y pwyllgor y protocolau drafft.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y pwyllgor ar y protocolau.

**Eitem 5: Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar ddeiseb P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru**

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan y Clerc ar y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Croesawodd y pwyllgor lansio'r fforwm drafod ar-lein.